Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Preswyl Marbryn**

**Cartref Preswyl Marbryn**
**Ffordd y Gogledd**
**Caernarfon**
**LL55 1BA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

## 7 Awst 2023.

07/08/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Preswyl Marbryn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Belinda Downey |
| Lleoedd cofrestredig | 18 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 30 Tachwedd 2021. |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yng nghartref gofal Marbryn yn cael gofal buddiol gan staff sy'n gyfarwydd iddynt ac sy'n gwbl ymwybodol o'u hanghenion. Caiff y "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg ei wireddu'n llawn ac mae'r rhan fwyaf o'r staff yn gallu siarad Cymraeg gyda chyfran uchel o'r preswylwyr yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith. Caiff y bobl eu cefnogi i aros mewn cysylltiad â'u hanwyliaid ac i fod yn rhan weithredol o'r gymuned leol. Mae'r trefniadau ar gyfer recriwtio a chadw staff yn dda. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rôl gan dîm rheoli'r gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda ac yn mesur ansawdd y gofal a roddir i'r bobl. Mae'r bobl yn fodlon ar eu hystafelloedd ac ar lendid yr amgylchedd.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael gofal gan staff sy'n gyfarwydd â'u hanghenion. Mae lefelau cadw staff yn dda ac mae llawer o'r staff wedi gweithio yn y cartref ers sawl blwyddyn. Gwelsom fod gan y staff gydberthnasau da â'r bobl a'u teuluoedd. Dywedodd un o'r preswylwyr wrthym, "*It's nice here, I can just get on with my own things. The food is good."* Gan sôn am y staff, dywedodd person arall, "*mae nhw yn dda iawn yma."* Mae trefniadau ymweld agored ar waith yn y cartref. Dywedodd y teuluoedd wrthym fod prosesau cyfathrebu'r cartref mewn perthynas â'u perthnasau yn dda. Dywedodd perthynas un o'r bobl wrthym, "*Lyfli yma, dwi'n berffaith hapus gyda'r gofal, dwi'n gwybod bod nhw'n saff yma".*

Gall y bobl wneud dewisiadau am eu bywydau beunyddiol. Caiff yr iaith Gymraeg ei chynnig yn llawn gan fod llawer o'r staff yn siarad Cymraeg. Mae dewisiadau'r bobl o ran eu hiaith gyntaf yn cael eu hadlewyrchu yn eu cynlluniau personol. Mae'r staff yn ymwybodol o ddewisiadau bwyd y bobl a chaiff y bobl ddewis eu prydau a'u byrbrydau dyddiol. Caiff y bwyd ei goginio ar y safle, a gwelsom fod cynhwysion ffres yn cyrraedd y cartref yn rheolaidd. Gwelsom fod cyfleoedd i'r bobl bersonoli eu hystafelloedd â phethau sydd o bwys iddynt. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar eu hystafelloedd ac ar lendid y cartref. Mae dewis o lolfeydd ar gael i'r bobl eistedd ynddynt, gan ddibynnu a ydynt eisiau bod yn gymdeithasol neu gael amser tawel. Caiff gweithgareddau eu cynnig i'r bobl bob dydd; gwelsom fod baneri wedi cael eu hongian er mwyn dathlu'r Eisteddfod ac roedd llawer o bobl yn mwynhau ei gwylio ar y teledu.

Mae'r staff yn cael hyfforddiant rheolaidd sy'n eu cefnogi yn eu rôl. Gall y staff ddisgrifio'r gweithdrefnau diogelu lleol pe byddai ganddynt bryder am ofal y bobl. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus â'r hyfforddiant a gynigir gan y cartref gan ei fod yn diweddaru eu gwybodaeth sy'n eu galluogi i ofalu am y bobl mewn modd diogel.

## Gofal a Chymorth

Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor iach â phosibl. Gwelsom o'r cynlluniau personol fod y bobl yn cael adolygiadau rheolaidd gan y meddyg teulu a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Gall y bobl fynychu apwyntiadau deintyddol, apwyntiadau gyda'r optegydd ac apwyntiadau yn yr ysbyty. Dywedodd y nyrs ardal wrthym fod y gofal yn dda yn y cartref a bod unrhyw ymdrechion i gyfathrebu ynghylch symptomau'r bobl yn amserol ac yn briodol. Dywedodd y staff fod cydberthynas dda â'r fferyllfa leol, a'u bod yn gallu cael presgripsiynau a meddyginiaethau newydd i'r bobl mewn modd dibynadwy. Mae'r staff yn cael hyfforddiant cyfredol mewn perthynas â rhoi meddyginiaethau ac yn cael profion cymhwysedd.

Gall y bobl gael dylanwad ar eu gofal. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael gwneud dewisiadau ynglŷn â'u diwrnod, pryd i godi a mynd i'r gwely, a beth i'w wneud yn ystod y dydd. Mae'r cynlluniau personol yn canolbwyntio ar anghenion a dewisiadau pob person ac yn adlewyrchu ei drefn arferol yn ystod y dydd a chyda'r nos. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys manylion am weithgareddau bywyd beunyddiol y bobl a chânt eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae'r cynlluniau hefyd yn cynnwys asesiadau risg i gadw'r bobl mor ddiogel â phosibl. Mae gan y bobl Gynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEPS), fel bod ffordd iddynt adael yr adeilad yn ddiogel os bydd argyfwng.

Mae'r staff yn cael hyfforddiant a chymorth i sicrhau ymarfer da. Mae'r staff yn cael hyfforddiant diogelu i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r gwasanaeth yn cydweithio'n dda â'r awdurdodau lleol ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), ac yn rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau sy'n effeithio ar y bobl ac ar allu'r gwasanaeth i weithredu'n hwylus.

## Yr Amgylchedd

Caiff y cartref ei gadw mor ddiogel â phosibl. Caiff asesiadau risg iechyd a diogelwch eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn lliniaru'r risgiau amgylcheddol i'r bobl a'r staff. Mae'r cartref yn lân ac yn daclus, ac nid oes unrhyw beryglon baglu yn y coridorau. Caiff ymarferion tân eu cynnal er mwyn sicrhau gweithdrefn ddiogel ac er mwyn sicrhau y gall y bobl adael yr adeilad yn effeithiol. Caiff cyfleustodau megis dŵr, trydan a nwy eu profi'n rheolaidd, ac mae copïau o'r tystysgrifau ar gael. Mae gan y cartref yswiriant atebolrwydd cyfredol ar waith. Mae cyfarpar priodol ar gael i'r bobl ei ddefnyddio ar gyfer eu gofal, a chaiff ei wasanaethu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Mae gwaith cynnal a chadw ac addurno parhaus ar waith yn y cartref er mwyn sicrhau bod y cartref yn ffres ac yn gyfforddus i'r bobl.

Mae'r bobl yn hapus gyda'r amgylchedd. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gallu dylanwadu ar y décor yn eu hystafelloedd a bod modd iddynt eu personoli. Mae staff cadw tŷ penodedig yn cadw'r cartref yn lân. Gwelsom fod dillad y bobl yn cael eu golchi a'u smwddio. Mae'r ardd flaen yn cael ei chynnal yn dda gyda phlanhigion lliwgar i'r bobl eu mwynhau. Mae lleoedd parcio ar gael i ymwelwyr a'r staff y tu ôl i'r cartref.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda ac yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn profi ansawdd y gwasanaeth, a chaiff y canlyniadau eu cyhoeddi mewn adroddiad fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn gofyn am safbwyntiau'r preswylwyr a'r staff am y gwasanaeth yn rheolaidd fel y gallant gael dylanwad ar gynlluniau ar gyfer dyfodol y gwasanaeth.

Mae'r trefniadau ar gyfer recriwtio a chadw staff yn dda. Yn ôl ffeiliau'r staff, caiff y staff eu recriwtio'n ddiogel, ac mae gwiriadau ar waith i sicrhau bod y staff yn briodol i weithio gydag oedolion agored i niwed. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u hyfforddi'n dda i'w galluogi i ymgymryd â'u rolau. Yn ôl y dogfennau a'r tystysgrifau hyfforddi, mae'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf. Gwelsom gofnodion cyfarfodydd staff a oedd yn dangos bod yr Unigolyn Cyfrifol yn cyfathrebu'n rheolaidd â'r staff am unrhyw newidiadau yn y gwasanaeth, beth sy'n cael ei wneud yn dda, ac unrhyw feysydd y mae angen mwy o waith arnynt.

Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi rhoi gwybod i AGC am unrhyw anawsterau ariannol. Gwelsom fod aelodau o staff yn cael eu recriwtio fel y bo angen i ddarparu gofal diogel i'r bobl. Mae'r cartref a'r cyfarpar mewn cyflwr da. Mae bwyd ffres yn cyrraedd y cartref yn rheolaidd er mwyn sicrhau lefelau maeth da i'r bobl.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 57 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod risgiau iechyd a diogelwch wedi cael eu hasesu'n ddigonol a'u lliniaru cyn belled ag y bo'n ymarferol bosibl. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 11/10/2023